Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

**Teitl:** **Gweithiwr Cefnogaeth**

**Lleoliad:** **Gweithio Ystwyth**

**Cyfarwyddiaeth:** **Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Swydd Rhif:** **BG14186**

**Cyflog:** **Gradd 6 (£30,825 – £34,834 y flwyddyn)**

**Oriau:** **37 awr yr wythnos**

**Contract:** **Cyfnod Sefydlog tan 31.03.2027**

## Crynodeb swydd

Mae cyfleoedd wedi codi ar gyfer Gweithwyr Cefnogaeth profiadol gyda phrofiad amlwg o weithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd i weithio yn nhîm sefydledig Cefnogi Newid sydd â'r nod o atal plant rhag dod i Dderbyn Gofal, cefnogi plant y dynodwyd adsefydlu fel eu cynllun parhauster, cyfrannu at asesiadau o botensial ar gyfer newid ac adsefydlu.

### Hysbyseb Lawn

Fel Gweithiwr Cefnogaeth o fewn y tîm Cefnogi Newid byddwch yn weithiwr proffesiynol aml-sgil, yn gweithio gyda rhieni, plant a phobl ifanc lle mae risg sylweddol y bydd plant/pobl ifanc angen llety gan yr awdurdod lleol neu na fydd, heb ymyriad dwys, yn gallu cael eu hadsefydlu'n ôl i'w teulu.

Byddwch yn gweithio fel rhan o dîm i gyflwyno'r rhaglen Cefnogi Niwed a chynnal asesiadau teulu a rhoi cefnogaeth i deuluoedd lle mae anghenion eu plant/plentyn yn cael ei gyflawni drwy gynllun gofal a chymorth. Byddwch yn darparu rhaglenni cynhwysfawr cymorth rhianta fel sydd angen ynghyd â rhaglenni a phecynnau pwrpasol o gefnogaeth i alluogi teuluoedd i ddod yn hyderus, cefnogol, cadarn a diogel.

Mae cymwysterau a phrofiad hanfodol ar gyfer y swydd hon yn cynnwys:

- Cymhwyster proffesiynol perthnasol Lefel 3 neu uwch mewn Gofal Cymdeithasol, Iechyd, Addysg Blynyddoedd Cynnar, Gwaith Chwarae Gwaith Ieuenctid
- Profiad amlwg o weithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd
- Profiad amlwg o gynnal asesiadau a chyflwyno ymyriadau
- O leiaf Lefel 1 a 2 mewn Diogelu a phrofiad a gwybodaeth gadarn o weithdrefnau amddiffyn plant, rhannu gwybodaeth a haenau ymyriad
- Profiad o weithio gyda theuluoedd "anodd eu cyrraedd"

Mae'r wybodaeth sydd ei hangen yn cynnwys dealltwriaeth dda o ddatblygiad plant a gwybodaeth gwaith gadarn o ddeddfwriaeth, canllawiau a safonau'n gysylltiedig â gwasanaethau cefnogaeth ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

**Cynhelir sgrinio cyn-cyflogaeth trwyadl yn ystod y broses recriwtio. Bydd angen i ddeiliad y swydd lenwi cais am Ddatgeliad Cofnodion Troseddol.**

**Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch Ffurflen Gais Swyddi Cymraeg**

**Ar gyfer gwybodaeth am ail-gysylltu cyn-weithwyr, gweler Polisi Cyflog y Cyngor.**

**Dyddiad Cau** **26.09.2024**

**Llunio Rhestr Fer** **03.10.2024**

**Dyddiad Cyfweliadau** **09.10.2024**